# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-16-08)

**Dyddiad: 16 Gorffennaf 2008**
**Amser: 9:00 - 11:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Mike German (Cadeirydd), Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Dr Jeff Chapman, Prif Weithredwr, Y Gymdeithas Dal a Storio Carbon
Peter Whitton, Is-gadeirydd, Y Gymdeithas Dal a Storio Carbon, a Rheolwr Gyfarwyddwr Progessive Energy Cyf
Gordon James, Cyfeillion y Ddaear

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i bawb. Nodwyd bod Mick Bates a Karen Sinclair wedi anfon ymddiheuriadau am eu habsenoldeb. Yr oedd Mike German yn bresennol yn y cyfarfod yn lle Mick Bates.

### Eitem 2: Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar gynhyrchu ynni SC(3)-16-08 (p1)

2.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i Dr Jeff Chapman a Peter Whitton gan ofyn iddynt wneud rhai sylwadau agoriadol ynglŷn â dal a storio carbon. Bu'r Aelodau yn holi'r tystion.

2.2 Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at y tystion ynglŷn ag unrhyw gwestiynau a oedd yn weddill, ac i'w gwahodd i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach.

### Eitem 3: Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4

3.1 Cynigiodd y cadeirydd gynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 10.37(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4, er mwyn caniatáu i'r pwyllgor drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol. Cytunodd y pwyllgor i'r cynnig.

### Eitem 4: Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: ystyried yr adroddiad blynyddol (yn breifat) SC(3)-16-08 (p2)

4.1 Gwahoddwyd cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gyflwyno adroddiad blynyddol yr is-bwyllgor. Cytunodd y pwyllgor i un gwelliant bach i'r adroddiad.

### Eitem 5: Ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i dlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig: cytuno ar yr adroddiad terfynol SC(3)-16-08 (p3)

5.1 Gwahoddwyd cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gyflwyno adroddiad yr is-bwyllgor ar ei ymchwiliad i dlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig. Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad.

### Eitem 6: Cytuno ar y flaenraglen waith SC(3)-16-08 (p4)

6.1 Cytunodd y pwyllgor ar bapur ar flaenraglen waith y pwyllgor.

6.2 Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn cyfarfod bob wythnos am dair wythnos gyda'r is-bwyllgor yn cyfarfod ar y bedwaredd wythnos. Cytunwyd ymhellach y byddai'r pwyllgor yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i wneud cais bod hyd y cyfarfod yn cael ei ymestyn i dair awr ac i nodi ei fod yn cytuno, mewn egwyddor, i'r is-bwyllgor gynnal cyfarfodydd ychwanegol ar brynhawn Llun yn ôl yr angen.

### Eitem 7: Papurau i'w nodi
### SC(3)-16-08 (p5) a (p6)

7.1 Cytunodd y pwyllgor i nodi papur cwmpasu ar gynhyrchu ynni ac adroddiad ar ymweliad y pwyllgor â'r Almaen ac Awstria i gasglu tystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad i leihau allyriadau carbon.

### Eitem 8: Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar gynhyrchu ynni
### SC(3)-16-08 (p7)

8.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i Gordon James gan ofyn iddo ddweud gair am yr hyn a gyflwynwyd yn ysgrifenedig gan Gyfeillion y Ddaear ar gynhyrchu ynni. Bu'r Aelodau'n holi'r tyst.